



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Polisi Trethi Cymru Adroddiad 2021

Rhagfyr 2021

[llyw.cymru](http://llyw.cymru)

# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
<b>Rhagair</b>	2
<b>Cefndir</b>	4
<b>Cyfraddau treth Cymru</b>	5
<b>A. Cyflawni amcanion strategol y llywodraeth gan gynnwys ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu</b>	8
1. Datblygu cyfraddau treth incwm Cymru	8
2. Diwygio cyllid llywodraeth leol	9
3. Datblygu ardoll dwristiaeth	11
4. Datblygu'r achos dros ddatganoli trethi mewn ffordd glir a sefydlog	12
5. Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol	13
<b>B. Y gwaith parhaus o adolygu polisiau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill</b>	15
6. Datblygu polisi treth trafodiadau tir	15
7. Datblygu polisi treth gwarediadau tirlenwi	16
8. Adolygu'r dreth trafodiadau tir	18
9. Adolygu'r dreth gwarediadau tirlenwi	19
10. Datblygu'r sylfaen drethu Gymreig	20
11. Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru	23

<b>C. Parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru</b>	25
12. Rheoli trethi Cymru ar y cyd â'n partneriaid o fewn cyd-destun ehangach y DU ac yn rhyngwladol	25
13. Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi yng Nghymru drwy weithgareddau ymgysylltu ehangach	26
<b>Atodiad 1: Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn</b>	28
<b>Atodiad 2: Manylion cyswllt ar gyfer cael rhagor o wybodaeth</b>	29
<b>Ffigurau a thablau</b>	
Ffigur 1: Cyfraddau treth incwm arfaethedig yng Nghymru, 2022-23	6
Tabl 1: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (cyn 27 Gorffennaf 2020 ac o 1 Gorffennaf 2021)	6
Tabl 2: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)	7
Tabl 3: Prif gyfraddau dibreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)	7
Tabl 4: Cyfraddau rhent lesioedd amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 2 Rhagfyr 2020)	7
Tabl 5: Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (cyfradd fesul tunnell)	7



## Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid  
a Llywodraeth Leol

# Rhagair

Pan gyhoeddais ein diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi a'n Cynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021-2026 ym mis Tachwedd, ymrwymais i adrodd yn flynyddol ar gynnydd i ddatblygu ein blaenoriaethau o ran polisi trethi, ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Dyma'r adroddiad polisi trethi cyntaf a gyhoeddwyd o dan y trefniadau hynny.

Er bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi'n fuan ar ôl y Cynllun Gwaith, mae'n adeiladu ar y cynnydd a wnaed gennym yn ystod y Senedd ddiwethaf, a gyflwynir yn yr Adroddiad Polisi Trethi blaenorol a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Mae hefyd yn achub ar y cyfle i egluro'r gweithgarwch rydym yn ymgymryd ag ef i ddatblygu ymrwymadau sy'n ymwneud â threth yn ein Rhaglen Lywodraethu, er enghraifft, ym meysydd diwygio cyllid llywodraeth leol a'r gwaith paratoadol i gynnal ymgynghoriad ar gynigion i ganiatáu i awdurdodau lleol godi ardoll dwristiaeth.

Fel y gellid disgwyl, mae'r adroddiad yn nodi bod mwy o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â rhai o'n blaenoriaethau o ran polisi trethi o gymharu ag eraill. Fodd bynnag, mae'n bwysig rhoi adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau o ran polisi trethi er mwyn galluogi ein rhanddeiliaid i nodi ble, pryd a sut y gallant ymgysylltu â'n agenda dreth orau, ac i gydweithio â ni i gydgyflawni ein blaenoriaethau o ran polisi trethi i Gymru. Mae hyn yn gyson â'r ffordd rydym yn datblygu polisi trethi yng Nghymru, fel y nodir yn ein dull o lunio polisïau trethi.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol i chi. Gallwch roi mewnbwn, rhannu syniadau a mynegi eich barn ar unrhyw un o'r pynciau a drafodir yn yr adroddiad hwn drwy gysylltu â Thrysorlys Cymru drwy un o'r ffyrdd a restrir ar ddiwedd y ddogfen.

*Rebecca Evans.*

## Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

# Cefndir

**1.** Mae tair treth wedi cael eu datganoli i Gymru – y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a Chyfraddau Treth Incwm Cymru.

**2.** Yn gyfnewid am y referniw treth a gynhyrchir drwy drethi Cymru, mae Llywodraeth y DU yn lleihau cyllid y grant bloc a ddarperir i Gymru yn ôl swm cyfatebol.

**3.** Mae'n hanfodol bod y trethi a ddatganolwyd i Gymru a'r ddwy dreth leol – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig – yn cael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, er mwyn cynhyrchu'r referniw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig Cymru megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a seilwaith trafndiaeth.

**4.** Mae ein Fframwaith Polisi Trethi<sup>1</sup> yn darparu sail i'n gwaith ar drethi yng Nghymru. Roedd ein diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi<sup>2</sup>, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, yn cynnwys ein pum egwyddor treth a'n 'dull o lunio polisi trethi'. Mae ein hegwyddorion treth yn sicrhau bod y ffordd rydym yn datblygu ac yn cyflawni polisiâu trethi yng Nghymru yn gyson ac yn gydlynol, ac yn cadarnhau y dylai trethi Cymru wneud y canlynol:

- Codi referniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl.
- Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
- Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml.
- Cael eu datblygu drwy gydweithredu ac ymwneud.
- Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

**5.** Mae'r Diweddariad i'r Fframwaith Polisi Trethi yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ystyried cynaliadwyedd, tegwch a chydaddoldeb wrth fynd i'r afael â'n blaenoriaethau.

**6.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021 – 2026<sup>3</sup> ym mis Tachwedd. Mae'r Cynllun Gwaith Polisi Trethi yn ddull pwysig o godi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a phobl a sefydliadau eraill â diddordeb o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio iddo, ac mae'n eu galluogi i ymgysylltu â'r agenda dreth yng Nghymru.

**7.** Er mwyn galluogi rhanddeiliaid a phartneriaid i gydweithio â Llywodraeth Cymru ymhellach er mwyn datblygu a chyflawni polisi trethi sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru, cynhelir ymgynghoriadau a gweithgarwch ymgysylltu penodol arall ar bolisi trethi fel y bo'n briodol. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cynhadledd dreth flynyddol yn yr hydref sy'n cynnig cyfle i ystyried rhai o'r ffrydiau gwaith a'r materion eraill sy'n ymwneud â threth yn fanylach.

**8.** Mae'r Adroddiad Polisi Trethi hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran yr agenda polisi trethi yng Nghymru. Dyma'r adroddiad cyntaf ers i Gynllun Gwaith Polisi Trethi 2021 – 2026 gael ei gyhoeddi, ac mae'n rhan o becyn o ddogfennau a gyhoeddwyd ar y cyd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

1 Fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/fframwaith-polisi-trethi](http://www.llyw.cymru/fframwaith-polisi-trethi)

2 Diweddariad ar y fframwaith polisi trethi | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/diweddariad-fframwaith-polisi-trethi](http://www.llyw.cymru/diweddariad-fframwaith-polisi-trethi)

3 Cynllun gwaith polisi trethi 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2021-i-2026](http://www.llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2021-i-2026)

# Cyfraddau treth Cymru

## Cefndir

**9.** Cyflwynwyd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar 1 Ebrill 2018, a chânt eu casglu a'u gweinyddu gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019, a chânt eu casglu a'u rheoli gan CThEM.

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru

**10.** Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru. Felly, er bod Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) ar gyfer trethdalwyr Cymreig<sup>4</sup>, Llywodraeth y DU sy'n dal i fod yn gyfrifol am bob agwedd arall ar y dreth a CThEM sy'n parhau i weinyddu treth incwm yng Nghymru.


**11.** Fel rhan o'r broses, mae Llywodraeth y DU yn gostwng pob un o dair cyfradd treth incwm y DU ar gyfer trethdalwyr Cymreig 10c, ac yn gwneud gostyngiad cyfatebol i grant bloc Cymru, sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus a ddatganolwyd i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid gosod cyfraddau Cymru ar 10c, a thrwy hynny sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru a Lloegr yn talu'r un gyfradd, neu osod cyfraddau gwahanol.

**12.** Yn unol â'i hymrwymiad i beidio â chymryd mwy mewn Cyfraddau Treth Incwm Cymru oddi ar deuluoedd Cymru cyhyd ag y bydd effaith economaidd y coronafeirws yn parhau o leiaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2022-23 ar 10c, gan gynnal y lefelau cyfredol. Rhaid i hyn gael ei gadarnhau gan y Senedd drwy gynnig cyn cytuno ar Gyllideb derfynol 2022-23.

**13.** Mae Ffigur un yn dangos y cyfraddau a'r trothwyon arfaethedig yn seiliedig ar drothwyon Treth Incwm a lwfansau personol 2022-23 a nodwyd yng Nghyllideb Wanwyn y DU 2021.

<sup>4</sup> Yn y rhan fwyaf o achosion, diffinnir trethdalwyr Cymreig fel pobl sy'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, darperir diffiniad llawn o dan a.8 o Ddeddf Cymru 2014: [www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted](http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted)

## Ffigur 1: Cyfraddau treth incwm arfaethedig yng Nghymru, 2022-23\*



## Treth Trafodiadau Tir

14. Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, gwnaethpwyd nifer o newidiadau i gyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir a ddaeth i rym yn 2020, gan gynnwys rhai newidiadau dros dro i brif gyfraddau preswyl. Nodwyd manylion y newidiadau hynny yn yr adroddiad polisi trethi blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021<sup>5</sup>. Daeth y newidiadau dros dro i ben ar 30 Mehefin 2021, fel y nodwyd yn flaenorol, ac mae'r cyfraddau a'r bandiau cyfredol fel a ganlyn.

Tabl 1: Prif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir (cyn 27 Gorffennaf 2020 ac o 1 Gorffennaf 2021)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £180,000	0%
Dros £180,000 i £250,000	3.5%
Dros £250,000 i £400,000	5%
Dros £400,000 i £750,000	7.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	10%
Mwy nag £1.5m	12%

5 Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2021 (llyw.cymru)  
[www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/adroddiad-ar-bolisi-trethi-2021.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/adroddiad-ar-bolisi-trethi-2021.pdf)

**Tabl 2: Cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)**

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £180,000	4%
Dros £180,000 i £250,000	7.5%
Dros £250,000 i £400,000	9%
Dros £400,000 i £750,000	11.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	14%
Mwy nag £1.5m	16%

**Tabl 3: Prif gyfraddau amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)**

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £250,000	1%
Dros £250,000 i £1,000,000	5%
Mwy nag £1m	6%

**Tabl 4: Cyfraddau rhent lesioedd amhreswyl y Dreth Trafodiadau Tir (o 22 Rhagfyr 2020)**

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £2,000,000	1%
Mwy na £2m	2%

## Treth Gwarediadau Tirlenwi

15. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyhoeddi bod cynnig i gynyddu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn unol â lefelau chwyddiant a ragwelir (a fesurir drwy'r Mynegai Prisiau Manwerthu) o 1 Ebrill 2022. Mae hyn yn parhau â'r polisi o sicrhau cysondeb â dull Llywodraeth y DU o ymdrin â chyfraddau treth tirlenwi a'u cynyddu yn unol â chwyddiant ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

**Tabl 5: Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (cyfradd fesul tunnell)**

Cyfradd	○	○	○
	1 Ebrill 2020	1 Ebrill 2021	1 Ebrill 2022
Safonol	£94.15	£96.70	£98.60
Is	£3.00	£3.10	£3.15
Anawdurdodedig	£141.20	£145.05	£147.90



# A. Cyflawni amcanion strategol y llywodraeth gan gynnwys ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu

## 1. Datblygu cyfraddau treth incwm Cymru

### Diben

**16.** *Parhau i ystyried sut y gallai newidiadau posibl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru effeithio ar drethdalwyr Cymreig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i beidio â chymryd mwy mewn Cyfraddau Treth Incwm Cymru oddi ar deuluoedd Cymru cyhyd ag y bydd effaith economaidd coronafeirws yn parhau, o leiaf.*

### Cefndir

**17.** Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) ar 6 Ebrill 2019. Gostyngwyd cyfraddau'r DU ar incwm nad yw'n dod o gynilion na difidendau 10c ym mhob band ar gyfer trethdalwyr Cymreig a phennwyd cyfraddau Cymru ar 10c. Cyhyd ag y bydd cyfraddau Cymru yn parhau ar y lefel hon ym mhob band, bydd trethdalwyr Cymreig yn talu'r un cyfraddau treth incwm cyffredinol â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**18.** Mae gan Lywodraeth Cymru drefniant â CThEM ar gyfer casglu CTIC ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Bwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (Bwrdd CTIC), a gadeirir ar y cyd gan Lywodraeth

Cymru a CThEM, yn goruchwyllo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi gofynion a mesurau perfformiad ar gyfer rhoi CTIC ar waith. Caiff y Cytundeb ei adolygu'n flynyddol. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf ar 3 Tachwedd.

**19.** Fel y nodir yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, mae'n ofynnol i CThEM gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y ffordd y mae'n gweinyddu CTIC. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar wefan Llywodraeth y DU<sup>6</sup> ar 10 Rhagfyr 2021. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y ffordd y mae CThEM yn gweinyddu CTIC, gan gynnwys:

- gweithgarwch cydymffurfiaeth (gan gynnwys sicrwydd cyfeiriadau);
- casglu refeniw a rhoi cyfrif amdano;
- gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid;
- data ar gyfer pennu cyfraddau a rhagolygon;
- data ar gyfer gwaith rheoli arian Llywodraeth Cymru;
- costau rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith, ac ailgodi tâl am gostau CThEM.

<sup>6</sup> Welsh rates of Income Tax – HMRC annual report 2020 – GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))  
[www.gov.uk/government/publications/welsh-rates-of-income-tax-hmrc-annual-report-2020](http://www.gov.uk/government/publications/welsh-rates-of-income-tax-hmrc-annual-report-2020)

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**20.** Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn mynd ati'n annibynnol i archwilio gwaith CThEM er mwyn sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian. Yn y trydydd adroddiad<sup>7</sup>, a gyhoeddwyd ar 21 Ionawr 2021, nodwyd bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn fodlon ar drefniadau CThEM ar gyfer gweinyddu CTIC. Nodwyd ei bod hefyd yn fodlon bod y trefniadau llywodraethu a'r costau a delir gan Lywodraeth Cymru yn gywir ac yn deg.

**21.** Mae gweithgor dadansoddol ar dreth incwm ddatganoledig yn goruchwyllo'r gwaith o ddatansoddi ystadegau ar dreth incwm ddatganoledig, gan gynnwys cyhoeddi alldro. Ymhlith aelodau'r grŵp hwn mae swyddogion o CThEM, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Comisiwn Cyllidol yr Alban a Llywodraeth yr Alban.

**22.** Ar 22 Gorffennaf 2021, cyhoeddodd CThEM y gyfres gyntaf erioed o ystadegau alldro yn ymwneud â CTIC. Roedd hyn yn gam pwysig arall yn y broses o ddatganoli trethi i Gymru. Gan mai 2019-20 oedd y flwyddyn bontio gyntaf, nid oes gan yr ystadegau alldro hyn unrhyw effaith uniongyrchol ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddant yn gosod y llinell sylfaen ar gyfer rhagolygon a ddefnyddir yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

**23.** Mae'r alldro ar gyfer 2019-20, sef ychydig dros £2 biliwn, yn debyg iawn i'r rhagolygon, ac mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y ffynonellau gwybodaeth a'r methodolegau rhagamcanu a ddefnyddir yn gadarn ac yn ddibynadwy<sup>8</sup>.

**24.** Roedd y cyhoeddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am dderbyniadau ar gyfer 2020-21 o system Gwybodaeth Amser Real CThEM, nad dynt ychwaith wedi'u cyhoeddi o'r blaen.

**25.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2022-23 ar 10c. Bwriedir i hyn gael ei gyflwyno i'r Senedd drwy gynnig cyn cytuno ar Gyllideb derfynol 2022-23.

**26.** Ar y cyd â'r Gyllideb Ddrafft, rydym wedi cyhoeddi ein Canllaw Cyflym ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau ar gyfer 2022-23 a 2023-24 er mwyn rhoi amcangyfrifon o'r effaith y gallai newidiadau i bob un o dair Cyfradd Treth Incwm Cymru ei chael ar refeniw.

## Canlyniad a'r camau nesaf

**27.** Bydd y broses barhaus o reoli CTIC yn mynd rhagddi drwy Fwrdd CTIC, gan gyfeirio at y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM.

**28.** Caiff y broses hon ei llywio gan yr ymrwymadau yn ein Rhaglen Lywodraethu<sup>9</sup> yn ogystal â rhagolygon trethi a'r rhagolygon economaidd a chyllidol ehangach.

## 2. Diwygio cyllid llywodraeth leol

### Diben

**29.** *Gwella systemau cyllid llywodraeth leol a threthiant lleol er mwyn sicrhau eu bod yn decach ac yn fwy graddoledig, cynaliadwy a chywir ac, ar yr un pryd, parhau i gefnogi gwasanaethau lleol hanfodol fel addysg, gofal cymdeithasol, tai, trafniadaeth leol, plismona a diogelwch cymunedol. Byddwn hefyd yn gwneud newidiadau a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgeisiau ehangach ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach.*

7 Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gael yn: [www.nao.org.uk/report/administration-of-welsh-income-tax-2019-20/](http://www.nao.org.uk/report/administration-of-welsh-income-tax-2019-20/)

8 Mae'r OBR yn cynhyrchu rhagolygon o'r trethi datganoledig, gan gynnwys cyfraddau treth incwm Cymru, i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddir ei Rhagolygon Trethi Cymru diweddaraf ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

9 Rhaglen lywodraethu: diweddiariad I LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddiariad](http://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddiariad)

## Cefndir

**30.** Yn ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-2026, rydym yn ymrwymo i “geisio diwygio’r dreth gyngor i sicrhau system decach i bawb”<sup>10</sup>. Mae hwn wedi’i gynnwys yn y Cytundeb Cydweithio hefyd. Nodir yr ymrwymiad hwn hefyd yn y Cytundeb Cydweithredu. Mae ein rhaglen hefyd yn cynnwys uchelgeisiau eraill sy’n berthnasol i gyllid llywodraeth leol a’r trethi lleol, gan gynnwys dadlau dros ddatganoli trethi’n glir ac yn sefydlog i Gymru, a chryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i’w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau.

**31.** Rydym yn falch o’r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y tymor diwethaf wrth fynd ati i sicrhau trethi lleol gwell a thecach. O ran y dreth gyngor, gwnaethom ddileu’r bygythiad o garchar am beidio â thalu; crëwyd eithriad newydd ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal; gwnaethom sicrhau bod pobl sydd â nam meddyliol difrifol yn gallu cael gafael ar ostyngiadau yn haws; a lanswyd ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o gymorth ariannol, gan gynnwys ein Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor cenedlaethol.

**32.** O ran ardrethi annomestig, rhoddwyd cryn dipyn o gymorth drwy gynnig rhyddhad i fusnesau bach, y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, elusennau, y stryd fawr a lleoliadau gofal plant. Aethom ati i gynnal ymarfer ailbriso er mwyn diweddarau’r sylfaen drethu a sicrhau ei bod yn gywir o hyd. Rhewyd y lluosydd ardrethi annomestig, a dechreuwyd ar waith sylweddol i gynnal yr ailbrisiad nesaf o 1 Ebrill 2023.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**33.** Wrth inni gyflawni gwelliannau amrywiol yn ystod y Senedd ddiwethaf, aethom ati hefyd i edrych ar ddiwygiadau posibl i’w hystyried yn y tymor hwy, gan gynnwys mathau amgen o drethi lleol. Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd *Crynodeb o’r Canfyddiadau*<sup>11</sup> – dogfen fanwl a oedd yn dwyn ynghyd nifer o adroddiadau ymchwil newydd sy’n ein helpu i ddeall yr opsiynau ar gyfer sicrhau trethi lleol mwy graddoledig a pharhau i gasglu refeniw hanfodol ar gyfer gwasanaethau lleol ar yr un pryd.

**34.** Mae’r crynodeb yn cynnwys ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd ac eraill, ac mae’n nodi’r dystiolaeth bwysig y bydd ei hangen arnom er mwyn gwneud dewisiadau yn ystod tymor y Senedd hon. Ymhlith yr opsiynau mae newidiadau bach a graddol i’r systemau presennol, a diwygiadau mwy sylfaenol fel treth gwerth tir leol.

## Canlyniad a’r camau nesaf

### Y Dreth Gyngor

**35.** Ar 7 Rhagfyr, amlinellwyd y ffordd y byddem yn mynd ati i gyflawni’r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu a’r Cytundeb Cydweithio mewn perthynas â threth gyngor decach<sup>12</sup>. Byddwn yn ymgynghori maes o law ar becyn uchelgeisiol o ddiwygiadau i’r dreth gyngor fel man cychwyn, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Byddwn yn ystyried ailbriso’r sylfaen drethu, gan roi cyfle i ailstrwythuro bandiau a pharatoi’r ffordd ar gyfer ailbriso amlach yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn adolygu Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor ac yn adolygu gostyngiadau, diystyriadau, eithriadau a phremiymau. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i archwilio syniadau mwy radical fel system sydd â chysylltiad agosach â gwerth tir.

10 Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddariad](http://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddariad)

11 Crynodeb o’r Canfyddiadau [www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/summary-of-findings.pdf](http://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/summary-of-findings.pdf)

12 Plenary 07/12/2021 - Welsh Parliament (assembly.wales) [www.record.assembly.wales/Plenary/12518#A68900](http://www.record.assembly.wales/Plenary/12518#A68900)

**36.** Byddwn yn mynd ati i gynhyrchu atebion ar y cyd â'n rhanddeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion, academyddion ac asiantaethau darparu. Bydd angen gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ar y cyd a diwygiadau deddfwriaethol er mwyn gwneud unrhyw newidiadau i'r systemau presennol.

**37.** Un opsiwn i'w ystyried yw ailbrisió'r dreth gyngor<sup>13</sup>. Yn dilyn ymarfer ailbrisió yn 2003, Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd wedi diweddarau sylfaen y dreth gyngor yn unol â'r farchnad dai. Fodd bynnag, heb gynnal ymarfer pellach i ailbrisió eiddo domestig yng Nghymru, bydd cyfyngiadau ar ein gallu i wneud newidiadau sylfaenol i'r dreth gyngor a allai helpu i sicrhau bod y system yn decach, er enghraifft drwy ychwanegu bandiau a diweddarau'r sylfaen drethu yn amlach.

**38.** O ran Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, rydym wedi parhau i sicrhau bod gan aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd incwm isel yr hawl i gael gostyngiadau. Rydym wedi gosod rheoliadau i ddiweddarau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf ac, unwaith eto, byddwn yn buddsoddi £244 miliwn i gefnogi'r cynllun. Datblygwyd y system gymorth bresennol ar fyrder yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu Budd-dal Treth Gyngor yn 2013. Ers inni gyflwyno ein cynllun cenedlaethol, mae'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol wedi dechrau. Mae hyn wedi cymhlethu'r ffordd y mae pobl yn gwneud cais o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r ffordd y caiff eu hawliad ei gyfrifo.

**39.** Rydym hefyd yn ystyried y camau nesaf yn dilyn ein hymgyngoriad ar y trefniadau trethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar. Cafwyd ymateb sylweddol ac amrywiaeth eang o safbwyntiau yn sgil ein gweithgarwch ymgysylltu.

## Ardrethi annomestig

**40.** Rydym yn ystyried pa ddiwygiadau sydd eu hangen i ardrethi annomestig er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru gryfach, decach a mwy gwyrdd. Mae'r ymchwil a ddygwyd ynghyd yn y ddogfen *Crynodeb o'r Canfyddiadau*<sup>14</sup> yn tynnu sylw at gyfleoedd gwirioneddol yn y maes hwn, o ailbrisiadau amlach, i'r lluosydd, ein dull o ymdrin â rhyddhad a'r broses apelio. Bydd angen diwygio er mwyn sicrhau bod y system ardrethi yn parhau i fod yn addas at y diben wrth inni adfer o'r pandemig, a bod reffeniwr hanfodol yn cael ei gasglu ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol ar yr un pryd.

## 3. Datblygu ardoll dwristiaeth

### Diben

**41.** *Cyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu i awdurdodau lleol godi ardoll dwristiaeth.*

### Cefndir

**42.** Caiff ardollau twristiaeth eu defnyddio mewn llawer o wledydd er mwyn cefnogi twristiaeth gynaliadwy, gyda'r arian yn cael ei ailfuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau lleol sy'n hanfodol i brofiad twristiaid.

**43.** Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-26 yn nodi ein hymrwymiad i gyflwyno ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll dwristiaeth<sup>15</sup>. Mae gwaith wedi dechrau yn y maes hwn cyn i ymgynghoriad ffurfiol gael ei lansio ar y cynigion deddfwriaethol drafft yn ystod hydref 2022. Bydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar archwilio effeithiau posibl y cynigion ac unrhyw ystyriaethau perthnasol wrth osod ardoll. Bydd y gwaith hwn yn parhau i ystyried effaith y pandemig.

13 R169-Revaluation-and-reform-of-council-tax-in-Wales-2.pdf (ifs.org.uk)  
www.ifs.org.uk/uploads/R169-Revaluation-and-reform-of-council-tax-in-Wales-2.pdf

14 Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau  
www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/crynodeb-or-canfyddiadau-2021.pdf

15 Rhaglen lywodraethu: diweddariad I LLYW.CYMRU www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddariad

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**44.** Rydym yn casglu ac yn adolygu tystiolaeth o wledydd lle caiff ardollau twristiaeth eu defnyddio fel mater o drefn er mwyn nodi opsiynau ar gyfer Cymru. Rydym yn edrych ar gyfleoedd i wneud gwaith ymchwil pellach er mwyn ennyn dealltwriaeth o ganfyddiadau ac effeithiau pe bai ardoll dwristiaeth yn cael ei rhoi ar waith ar lefel leol yng Nghymru. Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu â phartneriaid lleol a'r diwydiant twristiaeth ehangach er mwyn helpu i ddylunio ffurf ardoll a llywio ein hymgyngoriad a'n cynigion yn y dyfodol.

## Canlyniad a'r camau nesaf

**45.** Megis dechrau y mae'r gwaith o lunio'r ymgynghoriad; mae'r gwaith cwmpasu cychwynnol yn mynd rhagddo. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i gydweithio ac ymgysylltu â phartneriaid er mwyn nodi opsiynau ar gyfer dylunio a gweinyddu'r ardoll, ochr yn ochr â'u costau a'u buddiannau cymharol, er mwyn cefnogi'r ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion deddfwriaethol drafft a fydd yn dechrau yn ystod hydref 2022. Bydd y gwaith hwn yn parhau yng nghyd-destun yr angen i gefnogi'r sector twristiaeth, lletygarwch a digwyddiadau yn ystod y broses adfer.

## 4. Datblygu'r achos dros ddatganoli trethi mewn ffordd glir a sefydlog

### Diben

**46.** *Cyflwyno achos dros ddatganoli trethi mewn ffordd glir a sefydlog yng Nghymru a cheisio cytundeb â Llywodraeth y DU ar yr un pryd ynghylch system addas ar gyfer datganoli pwerau trethu newydd i Gymru.*

## Cefndir

**47.** Gall trethiant datganoledig fod yn ysgogiad pwerus o ran dylanwadu ar newid ymddygiad, yn ogystal â chynhyrchu refeniw i gefnogi gwariant cyhoeddus er mwyn diwallu anghenion Cymru a'n galluogi i ddatblygu trethi mwy graddoledig. Mae hefyd yn ein galluogi i ddatblygu dull mwy strategol o ymdrin â threthiant canolog a lleol yng Nghymru, gan sicrhau y gall fynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau dinasyddion a busnesau yn well.

**48.** Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio pwerau trethu newydd ar gyfer treth bosibl ar dir gwag. Diben Treth ar Dir Gwag fyddai helpu i ddatblygu tir y mae caniatadau eisoes wedi'u rhoi ar ei gyfer neu dir sydd o fewn y cynllun datblygu lleol ond nad yw'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Wrth fynd ar drywydd y pwerau trethu newydd hyn, rydym yn bwriadu sicrhau pwerau a allai gynnig ysgogiad ychwanegol i gyflawni ein huchelgeisiau o ran tai ac adfywio, a phrofi'r modd y gall pwerau trethu newydd gael eu datganoli drwy Ddeddf Cymru.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**49.** Ym mis Mawrth 2020, yn dilyn cytundeb gan Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd bod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Treth ar Dir Gwag wedi'u datblygu'n ddigonol i symud ymlaen i gam nesaf y broses, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gais ffurfiol i Lywodraeth y DU am ddatganoli'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Ar 19 Awst 2020, ymatebodd Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys ar y pryd gan ddweud y byddai angen rhagor o fanylion eto gan Lywodraeth Cymru cyn y gellid bwrw ymlaen â'r cais ffurfiol. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd Ariannol newydd y Trysorlys er mwyn deall pa wybodaeth bellach sydd ei hangen nawr, ond nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw eglurhad pellach.

**50.** Ar 5 Hydref 2021, trafododd y Senedd ddatganoli pwerau trethu newydd a phasiodd gynnig sydd:

- i. Yn cydnabod posibilrwydd cyflwyno treth ar dir gwag yng Nghymru er mwyn cyfrannu at gynyddu'r cyflenwad o dai a sicrhau defnydd cynhyrchiol o dir nad yw'n cael ei ddefnyddio.
- ii. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, a hynny'n unol â darpariaethau Deddf Cymru 2014.
- iii. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod proses effeithiol ar gyfer datganoli cymhwysedd deddfwriaethol dros drethi newydd i'r Senedd.

### Canlyniad a'r camau nesaf

**51.** Byddwn yn parhau i ddatblygu'r achos dros ddatganoli pwerau i gyflwyno treth genedlaethol ar dir gwag yng Nghymru, a hefyd yn ceisio sicrhau bod cyfrifoldeb am y Doll Teithwyr Awyr yng Nghymru yn cael ei drosglwyddo.

**52.** Rydym yn aros am eglurhad pellach gan Lywodraeth y DU ynghylch yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn symud i gam nesaf y broses o ddatganoli pwerau ar gyfer Treth ar Dir Gwag. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw wybodaeth bellach o fewn ei gallu, ac yn parchu'r broses y cytunwyd arni a phriod rolau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar yr un pryd.

**53.** Mae profiad Llywodraeth Cymru o symud drwy'r broses y cytunwyd arni i geisio pwerau trethu newydd wedi bod yn hirfaith ac yn heriol. Os na all y broses sicrhau bod modd datganoli treth fach, gul a phenodol sy'n cyd-fynd yn agos â chyfrifoldebau datganoledig, mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle y gallai Llywodraeth Cymru lwyddo i gyflwyno'r achos dros gymhwysedd treth pellach o dan y trefniadau presennol.

**54.** Er y byddwn yn parhau i geisio pwerau i gyflwyno Treth ar Dir Gwag, byddwn hefyd yn cyflwyno achos i Lywodraeth y DU dros adolygu a diwygio'r broses ar gyfer cytuno ar ddatganoli pwerau trethu newydd, a hynny ar fyrder.

**55.** Mae trafodaethau'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn berthnasol hefyd<sup>16</sup> Rhan o waith ehangach y Comisiwn Cyfansoddiadol fydd ystyried goblygiadau cyllidol gwahanol opsiynau cyfansoddiadol.

## 5. Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol

### Diben

**56.** *Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu treth pecynnau plastig a'i rhoi ar waith ledled y DU; a datblygu sylfaen dystiolaeth er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o effaith trethi eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli, meysydd a gedwir yn ôl, a meysydd trethiant newydd.*

### Cefndir

**57.** Mae ein polisi trethi yn ysgogwr pwysig a allai gael ei ddefnyddio i gefnogi amcanion ehangach y Llywodraeth. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r ystyriaeth a roddir i'r achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, ac fel ffordd o gefnogi ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Fodd bynnag, rydym wedi cymryd gofal i fabwysiadu dull strategol clir sy'n seiliedig

16 Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru | LLYW.CYMRU  
www.llyw.cymru/y-comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru



ar dystiolaeth, gan weithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar yr hyn y dylem ganolbwyntio arno er mwyn cyflawni amcanion polisi a sicrhau'r effaith fwyaf posibl, yn enwedig o ran sicrhau newidiadau parhaol mewn ymddygiad.

### **Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

**58.** Nodwyd y gwaith a wnaed i gasglu dystiolaeth, datblygu ein hopsiynau a phenderfynu ar y ffocws ar gyfer adnoddau a gweithgareddau cyfredol yn Adroddiad Polisi Trethi 2019<sup>17</sup> ac Adroddiad Polisi Trethi 2021<sup>18</sup>.

**59.** Yn ystod tymor diwethaf y Senedd, cytunodd Gweinidogion eu bod yn ffafrio cyflwyno taliadau ar eitemau plastig untro megis cwpanau a chynwysyddion bwyd tafladwy. Dewiswyd Bil Amgylchedd y DU fel y dewis ddull deddfwriaethol a'r Strategaeth Economi Gylchol "Mwy nag Ailgylchu" fel y cyfrwng dewisol i ddatblygu'r ymrwymiad yng Nghymru.

**60.** Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar gamau terfynol y broses o gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer treth pecynnau plastig ledled y DU. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r diwydiant pecynnau plastig yng Nghymru er mwyn codi ymwybyddiaeth a sicrhau mewnbnw cyn i'r deddfwriaeth gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2022.

**61.** Yn dilyn ei hadolygiad o Ardoll Agregau'r DU (UKAL), cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bod yn ymrwymedig i barhau i adolygu'r posibilrwydd o ddatganoli UKAL i Gymru, gan nodi bod effeithiau trawsffiniol yn bryder penodol.

### **Canlyniad a'r camau nesaf**

**62.** Mae adnoddau yn parhau i gael eu cyfeirio tuag at sicrhau bod y deddfwriaeth ar gyfer treth pecynnau plastig yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus ledled y DU unwaith y caiff ei chyflwyno ym mis Ebrill 2022. Felly, y bwriad yw datblygu'r sylfaen dystiolaeth ymhellach ac adeiladu arni er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o effaith trethi eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig mewn meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli, meysydd a gedwir yn ôl, a meysydd trethiant newydd. Mae hyn yn cynnwys gwaith i lywio'r achos dros ddatganoli UKAL o bosibl, a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth yr Alban i ddysgu o brofiadau'r Alban.

17 Adroddiad ar bolisi trethi Cymru 2019 | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019](http://www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019)

18 Adroddiad ar bolisi trethi 2021 | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-2021](http://www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-2021)

# B. Y gwaith parhaus o adolygu polisiau a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'n trethi presennol a meysydd polisi cysylltiedig eraill

## 6. Datblygu polisi treth trafodiadau tir

### Diben

**63.** *Sicrhau bod Treth Trafodiadau Tir yn parhau i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru ac, ar yr un pryd, yn cyflawni ei phrif ddiben o godi refeniw er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.*

### Cefndir

**64.** Mae'r Dreth Trafodiadau Tir, a godir wrth brynu tir ac adeiladau, yn dreth a gynlluniwyd yn bennaf i godi refeniw er mwyn helpu i dalu am wariant Llywodraeth Cymru. Gall hefyd gefnogi nodau polisi eraill Llywodraeth Cymru drwy, er enghraifft, ryddhadau, neu addasu'r cyfraddau a godir.

**65.** Mae'r Dreth Trafodiadau Tir yn ffynhonnell refeniw sylweddol i Lywodraeth Cymru. Cynhyrchwyd refeniw o £211m yn 2020-21 a £260m yn 2019-20. Ers mis Ebrill 2018, mae'r Dreth Trafodiadau Tir wedi codi dros £900m.

**66.** Caiff cyfraddau uwch o'r Dreth Trafodiadau Tir eu codi ar eiddo preswyl ychwanegol a brynir gan unigolion sydd eisoes yn berchen ar eiddo preswyl – er enghraifft ail gartrefi, eiddo prynu i osod – ac eiddo preswyl a brynir gan gwmni, er enghraifft, nid unigolyn.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**67.** Mae ACC yn cyhoeddi data rheolaidd ac amserol ar y Dreth Trafodiadau Tir, yn fisol ac yn chwarterol. Mae hefyd yn cyhoeddi data blynyddol; mae'r trydydd datganiad ystadegol blynyddol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yn cwmpasu'r cyfnod 2020-21 ac yn darparu amrywiaeth o wybodaeth am drafodiadau eiddo preswyl ac amhreswyl<sup>19</sup>.

**68.** Mae'r data hyn yn dangos bod pandemig y coronafeirws a'r newidiadau dilynol i'r gyfradd treth trafodiadau tir a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2020<sup>20</sup> a mis Rhagfyr 2020<sup>21</sup> wedi effeithio ar nifer y trafodion eiddo a'r dreth sy'n ddyledus, gyda gostyngiad sylweddol yng nghyfnod cynnar y pandemig yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan godiadau amlwg yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

<sup>19</sup> Ystadegau ar y Dreth Trafodiadau Tir: mis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021 | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/ystadegau-dreth-trafodiadau-tir-ebryll-2020-mawrth-2021](http://www.llyw.cymru/ystadegau-dreth-trafodiadau-tir-ebryll-2020-mawrth-2021)

<sup>20</sup> Newidiadau i drothwy cyfradd sero y Dreth Trafodiadau Tir | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/newidiadau-i-drothwy-cyfradd-sero-y-dreth-trafodiadau-tir](http://www.llyw.cymru/newidiadau-i-drothwy-cyfradd-sero-y-dreth-trafodiadau-tir)

<sup>21</sup> Newidiadau i drothwy cyfradd sero y Dreth Trafodiadau Tir | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/newidiadau-i-drothwy-cyfradd-sero-y-dreth-trafodiadau-tir](http://www.llyw.cymru/newidiadau-i-drothwy-cyfradd-sero-y-dreth-trafodiadau-tir)



**69.** Mae gwaith ymchwil hefyd wedi'i gynnal yn ddiweddar ar ba mor gyffredin yw ail gartrefi ac effaith perchenogaeth o'r fath ar gymunedau ledled Cymru<sup>22</sup>. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn amlygu natur leol ail gartrefi, a welir yn bennaf mewn ardaloedd arfordirol, awdurdodau gwledig ac yng Nghaerdydd ac Abertawe. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod crynodiad uwch o ail gartrefi mewn rhai cymunedau nag eraill o fewn awdurdodau lleol.

**70.** Fel y cadarnhawyd yn y Rhaglen Lywodraethu, bydd y cynnydd o un pwynt canrannol yng nghyfraddau uwch y Dreth Trafodiadau Tir a godir ar eiddo preswyl ychwanegol a brynir, fel eiddo prynu i osod ac ail gartrefi yn aros felly<sup>23</sup>.

### Canlyniad a'r camau nesaf

**71.** Byddwn yn ceisio gwerthuso effaith y newidiadau gwahanol i'r gyfradd treth trafodiadau tir a ddigwyddodd yn ystod 2020.

**72.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymedig i ystyried sut y gallai newidiadau i gyfraddau uwch y Dreth Trafodiadau Tir helpu i roi mantais i bobl sy'n prynu cartrefi i fyw ynddynt yn barhaol. Fel rhan o'r gweithgarwch hwn, rydym wedi lansio ymgynghoriad ar yr ystyriaethau sy'n gysylltiedig ag amrywiad lleol ar gyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir wrth brynu ail gartrefi a llety gwyliau. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y mathau o ardaloedd lle y gallai fod amrywiad (ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, neu mewn cymunedau mwy lleol), y dull o nodi'r ardaloedd lle y byddai cyfraddau yn amrywio, a'r mathau o drafodion y dylai amrywiadau lleol ar gyfraddau fod yn berthnasol iddynt<sup>24</sup>.

**73.** Hefyd, yn 2022-23, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn caniatáu estyniadau i'r cyfnod ad-dalu o 36 mis mewn perthynas â chyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir o dan amgylchiadau eithriadol<sup>25</sup>. Bydd y ddarpariaeth yn caniatáu i drethdalwyr hawlio ad-daliad o'r cyfraddau uwch lle maent yn newid eu prif breswylfan a lle maent wedi gwerthu eu prif breswylfan flaenorol fwy na thair blynedd ar ôl prynu'r eiddo newydd, os yw amgylchiadau gwirioneddol eithriadol sy'n ymwneud â chladin anniogel yn atal y broses werthu rhag cael ei chwblhau'n gyflymach.

**74.** Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfraddau a'r bandiau er mwyn sicrhau bod y Dreth Trafodiadau Tir yn parhau i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru ac yn cynhyrchu refeniw ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus pwysig.

## 7. Datblygu polisi treth gwarediadau tirlenwi

### Diben

**75.** *Sicrhau bod y polisi Treth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu fel y'i bwriadwyd, ac ystyried cyfleoedd i'r dreth gefnogi amcanion polisi ehangach y llywodraeth.*

### Cefndir

**76.** Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi bod yn casglu a rheoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn llwyddiannus ers iddi gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2018. Hyd yma, mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi cyfateb i gyfraddau treth tirlenwi'r DU, er mwyn parhau'n gyson â dull Llywodraeth y DU o ymdrin â chyfraddau treth

22 Ymchwil i Ddatblygu Sylfaen Dystiolaeth ar Ail Gartrefi – Llywodraeth Cymru Ail gartrefi: datblygu polisiau newydd yng Nghymru – adroddiad gan Dr Simon Brooks

[www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/ail-gartrefi-datblygu-polis%C3%AFau-newydd-yng-nghymru\\_0.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/ail-gartrefi-datblygu-polis%C3%AFau-newydd-yng-nghymru_0.pdf)

23 Llywodraeth Cymru – Rhaglen Lywodraethu <https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddiariad>

24 [www.llyw.cymru/ail-gartrefi-amrywiadau-lleol-i-gyfraddau-treth-trafodiadau-tir](http://www.llyw.cymru/ail-gartrefi-amrywiadau-lleol-i-gyfraddau-treth-trafodiadau-tir)

25 Datganiad Ysgrifenedig: Estyniad cyfnod ad-dalu cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir pan fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol (16 Tachwedd 2021) | LLYW.CYMRU

[www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-estyniad-cyfnod-ad-dalu-cyfraddau-preswyl-uwch-y-dreth-trafodiadau-tir-pan](http://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-estyniad-cyfnod-ad-dalu-cyfraddau-preswyl-uwch-y-dreth-trafodiadau-tir-pan)

tirlenwi ar gyfer y gyfradd dreth is a safonol. Caiff y dull gweithredu hwn ei adolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses flynyddol o bennu cyfraddau, lle rhoddir ystyriaeth i'r manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm wrth newid y cyfraddau yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo amcanion amgylcheddol ehangach.

**77.** Gan barhau'n gyson â gweddill y DU, cyflwynodd y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi gyfradd dreth safonol ac is sy'n berthnasol i warediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Mae'r gyfradd is yn gymwys i ddeunyddiau sy'n bodloni'r amodau a nodir yn y Ddeddf honno ac mae'r gyfradd safonol yn gymwys i'r holl ddeunyddiau eraill. Hefyd, cyflwynodd y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi drydedd cyfradd dreth ar gyfer gwastraff a waredir mewn lleoedd ar wahân i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, a elwir yn gyfradd gwarediadau anawdurdodedig. Nid oes gan Lywodraeth y DU gyfradd ar wahân ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig – mae'r gyfradd safonol yn gymwys i'r holl warediadau a wneir ar safleoedd anawdurdodedig, a ategir gan system gosbi.

### **Tystiolaeth a gwaith dadansoddi**

**78.** Mae cyfradd gwarediadau anawdurdodedig y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ceisio cefnogi'r uchelgais polisi i atal gwarediadau anawdurdodedig sy'n bla ar ein cymunedau. Bydd yn sicrhau bod effaith negyddol gynyddol gwarediadau anawdurdodedig yn cael ei chydabod. Mae'n helpu i sicrhau tegwch i weithredwyr cyfreithlon ac yn adlewyrchu costau gorfodi ACC yn well. Nod y polisi yw annog gweithredwyr anghyfreithlon i reoli eu gwastraff yn fwy cynaliadwy drwy o leiaf fynd ag ef i safle tirlenwi awdurdodedig a thalu cyfran deg o dreth, sy'n cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**79.** Mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi parhau i fod yn gyson â chyfraddau treth tirlenwi'r DU. Drwy bennu cyfraddau sy'n gyson â threth tirlenwi'r DU, bydd gwasanaethau

cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i fanteisio ar refeniw treth a bydd llai o risg y caiff gwastraff ei symud ar draws ffiniau. At hynny, gall cyfraddau sefydlog fod o fudd i fusnesau hefyd o ystyried yr ansicrwydd economaidd yn sgil y pandemig ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

**80.** Caiff y dull o bennu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei lywio gan egwyddorion treth Llywodraeth Cymru a'r amcan i leihau'r gwastraff a waredir ar safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach wedi bod yn ffactor allweddol hefyd wrth bennu'r cyfraddau hyd yma. Y dull gweithredu a fabwysiadwyd oedd mai dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru, a'r egwyddor na ddylai fod llai o refeniw ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, y dylai cyfraddau treth wyro oddi wrth gyfraddau treth blaenorol.

**81.** Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn cynnwys cynlluniau i gynyddu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn unol â chwyddiant. Bydd y broses o roi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar waith yn parhau i gael ei monitro, a byddwn yn gweithio gydag ACC er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol.

### **Canlyniad a'r camau nesaf**

**82.** Mae Cymru ar flaen y gad o ran polisiau gwastraff ac rydym yn cydnabod bod y dreth gwarediadau tirlenwi yn ysgogwr ychwanegol defnyddiol i gefnogi polisiau gwastraff Llywodraeth Cymru a chyflawni ein nod uchelgeisiol o weld dyfodol diwastraff yng Nghymru.

**83.** Gall fod nifer o ffyrdd gwahanol o ddefnyddio'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i ddatblygu amcanion ehangach y llywodraeth. Er enghraifft, mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau y dylid cynyddu cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn annog pobl i ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer mwy o'r deunyddiau hyn, gan nodi y

gallai'r farchnad ymdopi â gwahaniaeth bach mewn cyfraddau heb gynyddu'r risg o dwristiaeth gwastraff. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon yn y tymor hwy ar gyfer gwastraff yn fwy ansicr yn sgil newidiadau mewn ymddygiad yn dilyn y pandemig ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. At hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Rheoliadau Ailgyrchu i Fusnesau a fydd yn effeithio ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

**84.** Bydd yn bwysig ystyried yr holl ffactorau hyn ac asesu eu heffaith a'r goblygiadau sydd ynghlwm wrthynt wrth inni fynd ati gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y gall y Dreth Gwarediadau Tirlenwi helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n debygol o ddod i ben yn ystod hydref 2023, yn llywio ein gwaith hefyd.

## 8. Adolygu'r dreth trafodiadau tir

### Diben

**85.** *Cynnal adolygiad annibynnol i werthuso effeithiolrwydd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (y cyfeirir ati fel LTTA o hyn ymlaen).*

### Cefndir

**86.** Mae rhwymedigaeth statudol ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau i gynnal adolygiad annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir i'w gwblhau o fewn chwe blynedd ar ôl i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (LTTA) gael Cydsyniad Brenhinol. Rhaid i'r adolygiad gael ei gwblhau felly erbyn mis Mai 2023.

**87.** Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y newidiadau penodol a wnaed pan gyflwynwyd LTTA, ac eir ati wedyn i'w chymharu â Threth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr. Yn benodol, bydd yn ystyried a gyflawnwyd bwriad y polisi a oedd yn sail i'r newidiadau penodol a ph'un a yw'r newidiadau hynny yn briodol i Gymru o hyd.

**88.** Bydd hefyd yn ystyried y ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yn cymharu a chyferbynnu'r newidiadau er mwyn nodi a oes unrhyw feysydd lle y gallai Cymru fanteisio ar newidiadau pellach i'n deddfwriaeth.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**89.** Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y newidiadau mwyaf sylweddol a wnaed i'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau ei bod yn briodol i Gymru o hyd. Ymhlith y meysydd a gaiff eu hadolygu mae'r canlynol:

- y newidiadau a wnaed i'r Dreth Trafodiadau Tir (o gymharu â Threth Dir y Dreth Stamp) a ph'un a ydynt wedi sicrhau gwelliannau;
- a yw'r newidiadau yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy priodol i Gymru;
- nodi cyfleoedd i wella;
- ystyried agweddau ymarferol gweithredol;
- effaith y ffaith nad oes rhyddhad ar gyfer prynwyr tro cyntaf.

**90.** Rhagwelir y bydd yr adolygiad annibynnol yn cynnwys adolygiad o ddeddfwriaeth bresennol, tystiolaeth a data, arolygon a chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol.

### Canlyniad a'r camau nesaf

**91.** Mae ymarfer caffael yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i benodi unigolyn/sefydliad annibynnol i gynnal yr adolygiad statudol. Bwriedir dyfarnu'r contract ar ddechrau 2022. Disgwylir i'r adolygiad bara am tua 10 mis.

## 9. Adolygu'r dreth gwarediadau tirlenwi

### Diben

**92.** *Cynnal adolygiad annibynnol i werthuso effeithiolrwydd Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.*

### Cefndir

**93.** 93. Nid oes unrhyw rwymedigaeth statudol ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau i gynnal adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Fodd bynnag, gwnaethpwyd ymrwymiad gan gyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, yn ystod Cam 3 o'r ddadl ar Fil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yn y Cyfarfod Llawn, y byddai adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Roedd y Memorandwm Esboniadol<sup>26</sup> a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil hwnnw yn cynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad ar ôl gweithredu. Roedd y Memorandwm Esboniadol<sup>27</sup> a gyhoeddwyd ochr yn ochr â rheoliadau'r cyfraddau treth ar gyfer 2021-22 hefyd yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i adolygu'r ddeddfwriaeth.

**94.** Mae'r ymrwymiad anstatudol i gynnal adolygiad annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn golygu nad oes unrhyw derfyn amser pendant ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn. Fodd bynnag, mae'r ymrwymiad Gweinidogol yn awgrymu amserlen debyg i'r adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth y Dreth Trafodiadau Tir. Felly, at ddibenion nodi amserlen ar gyfer yr adolygiad, ystyrir bod yr ymrwymiad hwn yn golygu y caiff yr adolygiad ei gwblhau erbyn y dyddiad olaf o fewn chwe blynedd o'r diwrnod y cafodd deddfwriaeth y Dreth Gwarediadau Tirlenwi Gydsyniad Brenhinol, sef mis Medi 2023.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**95.** Mae cwmpas yr adolygiad arfaethedig yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Nod cyffredinol yr adolygiad yw gwerthuso pa mor effeithiol yw'r dreth o ran helpu i gyflawni ein polisiau amgylcheddol. Bydd hefyd yn ystyried y gwersi a ddysgwyd a sut y gallai'r rhain effeithio ar ddyluniad polisiau yn y dyfodol.

**96.** Rhagwelir y bydd yr adolygiad annibynnol yn cynnwys adolygiad o'r ddeddfwriaeth bresennol, tystiolaeth a data, arolygon a chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol.

### Canlyniad a'r camau nesaf

**97.** Bydd ymarfer caffael i benodi unigolyn/ sefydliad annibynnol i gynnal yr adolygiad yn mynd rhagddo ar ddechrau 2022. Bwriedir dyfarnu'r contract yn ystod gwanwyn 2022. Disgwylir i'r adolygiad bara am tua 10 mis.

## 10. Datblygu'r sylfaen drethu Gymreig

### Diben

**98.** *Sicrhau bod yr effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar y sylfaen drethu Gymreig yn cael eu hystyried wrth fynd ati i ddatblygu polisiau Llywodraeth Cymru.*

### Cefndir

**99.** Yn sgil datganoli pwerau trethu i Gymru mae tua un rhan o bump o wariant Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu gan refeniw o'r trethi hyn. Bydd i'r gwaith o ddatblygu'r sylfaen drethu yng Nghymru oblygiadau tymor canolig i dymor hwy o ran refeniw treth a'r arian sydd ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

26 [www.senedd.wales/laid/documents/pri-ld10839-em-r/pri-ld10839-em-r-w.pdf](http://www.senedd.wales/laid/documents/pri-ld10839-em-r/pri-ld10839-em-r-w.pdf)

27 [www.senedd.cymru/media/2tiho3ke/sub-ld13969-em-w.pdf](http://www.senedd.cymru/media/2tiho3ke/sub-ld13969-em-w.pdf)

**100.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad<sup>28</sup> yn nodi ymrwymiad i ystyried ffyrdd newydd o dyfu ein sylfaen drethu ac i ystyried goblygiadau cyllidol unrhyw argymhellion gan y Comisiwn Cyfansoddiadol.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**101.** Mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon, yn nodi bod y rhagolygon economaidd yn well o gymharu â champau cynnar y pandemig. Fodd bynnag, mae'n nodi bod ansicrwydd o hyd ynghylch y sefyllfa bresennol a'r effaith ar y sylfaen drethu yn y tymor hwy. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at yr heriau demograffig hirdymor y bydd ein heconomi a'n sylfaen drethu yn eu hwynebu.

### Canlyniad a'r camau nesaf

**102.** Gan gydnabod y risgiau y mae'r amgylchedd economaidd presennol a'r heriau demograffig hirdymor yn eu peri i'r sylfaen drethu Gymreig, rydym yn parhau i gymryd camau gweithredu eang eu cwmpas er mwyn atgyfnerthu ein sylfaen drethu a sicrhau bod Cymru yn lle deniadol i fyw, astudio, gweithio a buddsoddi ynddo.

### Cefnogi Unigolion

**103.** Mae cyfnodau blaenorol o ddirywiad economaidd wedi dangos y gall cyfnodau o ddiweithdra gael effeithiau hirdymor ar ganlyniadau pobl yn y farchnad lafur ac y gall y 'creithiau' hynny effeithio fwyaf ar bobl ifanc. Felly, rydym yn rhoi rhaglen uchelgeisiol ar waith sydd wedi'i chynllunio i gynnig cyfleoedd gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed yng Nghymru.

**104.** Cymru'n Gweithio yw'r porth lle y gall pob unigolyn 16 i 24 oed yng Nghymru fanteisio ar y warant hon. Bydd hyn yn adeiladu ar y model cryf a llwyddiannus sydd ar waith eisoes ar gyfer rhoi arweiniad ar yrfaoedd a chymorth i gyfeirio unigolion at yr holl raglenni a gwasanaethau sydd

ar gael yn lleol. Mae mwy na 5,500 o bobl ifanc sy'n gymwys i fanteisio ar y warant wedi defnyddio gwasanaethau Cymru'n Gweithio ers mis Mai 2021.

**105.** Caiff y warant hon ei chefnogi gan ddarpariaeth eang er mwyn sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar gymorth effeithiol sy'n addas iddynt. Eleni yn unig, rydym wedi buddsoddi:

- £390 miliwn mewn darpariaeth Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach, gan gynnig amrywiaeth o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol i filoedd o bobl ifanc;
- £16.4 miliwn mewn Lwfansau Cynhaliaeth Addysg, £5 miliwn ar gyfer lleoedd ychwanegol a £33 miliwn ychwanegol i helpu pobl ifanc mewn addysg i adfer yn sgil effaith y pandemig;
- £152 miliwn ar gyfer prentisiaethau;
- dros £1.2 biliwn ar gymorth i fyfyrwyr Addysg Uwch ar gyfer 2021-22;
- £122 miliwn o gyllid ychwanegol i feithrin gallu a'i gwneud yn bosibl i'n prifysgolion gynnig mwy o gyllid caledi a gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt;
- £70 miliwn y flwyddyn i helpu pobl yn ôl i waith drwy amrywiaeth o raglenni cyflogadwyedd gan gynnwys ReACT, Hyfforddeiaethau a Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol.

### Mudo

**106.** Mae pobl o wledydd eraill sy'n byw yng Nghymru yn gwneud cyfraniadau pwysig i'n cymunedau, ein heconomi a'n sylfaen drethu. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod y rhai sydd eisoes yn byw yng Nghymru yn teimlo bod croeso iddynt, a'u helpu i aros yng Nghymru. Ar yr un pryd, rydym am ddenu mwy o bobl i ymgartrefi yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

- Annog Llywodraeth y DU i ymgysylltu â ni ar faterion sy'n ymwneud â mudo. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU yn ystyried economi Cymru wrth wneud newidiadau i'r system fisâu mudo.
- Ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Cyngor Cynghori ar Fewnfudo er mwyn sicrhau y caiff anghenion Cymru eu hystyried pan fydd MAC yn adolygu'r rhestr o alwedigaethau lle ceir prinder yn 2022.
- Helpu gwladolion yr UE i wneud cais o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE er mwyn sicrhau eu hawliadau drwy roi cymorth a chynghor am ddim iddynt.
- Gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, CThEM a'r Swyddfa Gartref er mwyn helpu dinasyddion sy'n agored i niwed o'r UE yng Nghymru.

**107.** Rydym wrthi'n ystyried y llwybrau gwaith ar ôl astudio y gallwn eu cynnig i raddedigion nad ydynt o'r DU a'r cyfleoedd y gallwn eu cynnig drwy lwybr fisa Hong Kong, ac rydym yn parhau i groesawu ffoaduriaid.

**108.** Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant brand llywyddiannus Cymru Wales i ddenu grwpiau penodol i Gymru.

**109.** Mae ein Strategaeth Ryngwladol<sup>29</sup> yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod Cymru yn cael ei chydabod fel y lle gorau yn y DU i raddedigion ddechrau busnesau. Bydd hyn yn annog y rhai sy'n astudio yng Nghymru i aros yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn ymgysylltu â Chymry ar wasgar i hyrwyddo Cymru fel lle i fyw, ymweld a buddsoddi.

**110.** Byddwn hefyd yn manteisio ar y cyfle am fwy o weithio o bell ac opsiynau cymudo hyblyg.

## Gwaith Teg

**111.** Mae telerau gwell i weithwyr yn hanfodol i sicrhau Cymru decach a mwy cyfartal. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod Cymru yn genedl gwaith teg, lle y caiff pob gweithiwr ei wobrwyo'n deg, ei glywed a'i gynrychioli a lle y gall ddatblygu mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle y caiff ei hawliau eu parchu. Bydd gwaith teg yn sicrhau buddiannau hirdymor i weithwyr, cyflogwyr a'r gymdeithas ehangach – yn enwedig drwy swyddi mwy diogel â chyflog gwell a fydd yn cyfrannu at atgyfnerthu'r sylfaen drethu Gymreig.

**112.** Rydym yn cyflawni ein blaenoriaethau a'n huchelgeisiau i sicrhau bod Cymru yn genedl gwaith teg, gan ddefnyddio pob ysgogwr sydd gennym i annog a hyrwyddo argaeledd gwaith teg a'r mynediad iddo, gan gynnwys:

- Sefydlu Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i wella amodau gwaith ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r Fforwm yn llywio'r ffordd rydym yn mynd ati i gyflawni ein hymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol. Rydym yn awyddus i ehangu'r model partneriaeth gymdeithasol hwn i sectorau eraill a sefydlwyd Fforwm Manwerthu yn ddiweddar.
- Defnyddio ysgogwyr fel y Contract Economaidd a'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi i annog arferion gwaith tecach ac ymddygiad cyfrifol ym myd busnes.
- Gweithio gyda Cynnal Cymru, partner achredu'r Sefydliad Cyflog Byw yng Nghymru, i'w helpu i hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac annog mwy o bobl i'w fabwysiadu fel ffordd o fynd i'r afael â chyflogau isel.
- Cyfleu manteision gwaith teg a chynnwys partneriaid cymdeithasol wrth fynd ati i hyrwyddo gwaith teg a rhannu arferion gorau. Atgyfnerthu'r dull partneriaeth gymdeithasol fel ffordd allweddol o sicrhau bod gweithleoedd yn decach, yn fwy diogel ac yn well i bawb.



**113.** Rydym wedi ymgynghori'n eang ar Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus drafft, ac rydym yn disgwyl ei gyflwyno ar ddechrau tymor y Senedd hon. Os caiff ei basio, bydd yn sefydlu partneriaeth gymdeithasol newydd, prosesau caffael cymdeithasol gyfrifol a dyletswyddau gwaith teg.

**114.** Rydym yn defnyddio ein dylanwad i hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru mewn materion a gedwir yn ôl. Mae hyn yn cynnwys galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno'r Bil Cyflogaeth a addawyd ganddi, a darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer gweithgareddau gorfodi er mwyn sicrhau bod gan weithwyr yr hawliau a'r mesurau diogelu statudol y maent yn eu haeddu.

### Cefnogi Busnesau

**115.** Ers mis Mawrth 2021, rydym wedi parhau i ddarparu cymorth brys drwy ein Cronfa Cadernid Economaidd. Mewn tri cham, yn cwmpasu Mawrth, Mai-Mehefin a Gorffennaf-Awst, rydym wedi rhoi dros £60m o gymorth i fwy na 7,000 o fusnesau. Yn ystod y cyfnod adrodd, dyrannwyd ail gam (£30m) ein Cronfa Adferiad Diwylliannol gwerth £93m hefyd, a rhoddwyd cymorth i dros 600 o fusnesau a 3,500 o unigolion.

**116.** Mae cynllun Benthyciadau Busnes COVID-19 Cymru Banc Datblygu Cymru wedi rhoi dros £92 miliwn mewn 1,335 o fuddsoddiadau, gan ddiogelu 16,055 o swyddi. Yn gyffredinol, yn ystod blwyddyn ariannol 20/21, dosbarthodd y Banc Datblygu bron £200 miliwn yn economi Cymru, gan greu neu ddiogelu dros 19,300 o swyddi. Mewn meysydd eraill, mae busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden yn dal i gael budd o'r cynllun rhyddhad cyfraddau 100%, sy'n weithredol drwy gydol y flwyddyn ariannol.

**117.** Rydym hefyd wedi cadarnhau Cronfa (Datblygu ac Adfer BBaChau) gwerth £35m a arweinir gan Awdurdodau Lleol a fydd yn rhoi mwy o gymorth ariannol datblygu busnes yn uniongyrchol i fusnesau wrth iddynt adfer yn sgil pandemig COVID. Bydd yr arian hwn yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n ymwneud â datgarboneiddio a'r argyfwng hinsawdd, yn atgyfnerthu cadwyni cyflenwi lleol a busnesau economi sylfaenol ymhellach ac yn annog mentrau gweithio'n glyfar.

**118.** Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio<sup>30</sup>, sy'n cefnogi'r broses o gyflawni ein Strategaeth Ryngwladol<sup>31</sup>, yn nodi sut rydym yn helpu i dyfu economi Cymru a sicrhau swyddi a chyfleoedd i bobl Cymru drwy helpu cwmnïau o Gymru i fasnachu'n rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys mesurau i helpu busnesau i allforio yn ystod COVID-19, ac yn union ar ôl hynny, ac i addasu i amgylchedd masnachu newydd y DU.

### Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040

**119.** Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, sy'n cyfrannu at dyfu'r sylfaen drethu drwy nodi ble y caiff tai a chyflogaeth, a'r gwasanaethau a'r seilwaith sy'n eu cefnogi, eu lleoli.<sup>32</sup>

### Datblygu'r sail dystiolaeth

**120.** Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i ddatblygu'r dystiolaeth sy'n sail i'n dealltwriaeth o sylfaen drethu Cymru a'r polisiau i gryfhau'r sylfaen drethu. Rydym yn darparu cyllid i gefnogi gwaith Dadansoddi Cyllid Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Byddwn hefyd yn comisiynu ymchwil ar yr hyn sy'n ysgogi newidiadau yn y sylfaen drethu, fel mudo.

30 [www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/cynllun-gweithredu-cymru-ar-gyfer-allforio.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/cynllun-gweithredu-cymru-ar-gyfer-allforio.pdf)

31 Strategaeth ryngwladol i Gymru | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru](http://www.llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru)

32 Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU [www.llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040](http://www.llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040)

## 11. Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

### Diben

**121.** *Cyflwyno Bil a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn ymateb i amgylchiadau allanol sy'n effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru, a sicrhau cymeradwyaeth y Senedd.*

### Cefndir

**122.** Nod Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr adnoddau cywir i ymateb i amgylchiadau allanol sy'n effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw'r pwerau sydd gennym i ddiwygio trethi datganoledig yn ddigonol er mwyn ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau annisgwyl, megis dyfarniadau llys, elfennau amwys neu newidiadau yn y trethi cyfatebol yn Lloegr, a allai gael effaith sylweddol ar rwymedigaethau unigolion ac ar ein refeniw. Bydd y Bil yn cynnig ffordd ystyryth a hyblyg o ymateb, ac yn rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu ar newidiadau a'u cymeradwyo

**123.** Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau (y gellir ei arfer naill ai drwy weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed') i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, a rheoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny, pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud newidiadau at y dibenion canlynol neu mewn perthynas â hwy:

- a. sicrhau na chaiff treth gwarediadau tirlenwi na threth trafodiadau tir eu gosod lle byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;

- b. diogelu rhag achosion o osgoi trethi mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi a threth trafodiadau tir;
- c. ymateb i newidiadau i drethi 'rhagflaenol' y DU (hynny yw, treth dir y dreth stamp neu'r dreth tirlenwi) sy'n effeithio neu a allai effeithio ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru;
- d. ymateb i benderfyniadau llysoedd/tribiwnlysoedd sy'n effeithio neu a all effeithio ar Ddeddfau Trethi Cymru, neu reoliadau a wneir oddi tanynt.

**124.** Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o'u polisi ynghylch y ffordd y caiff y pŵer gwneud rheoliadau ei ddefnyddio i wneud rheoliadau sy'n cael effaith ôl-weithredol.

**125.** Mae angen yr ymyriad hwn yn bennaf er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol a diogelu'r refeniw sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru. Er enghraifft, ar hyn o bryd, bob tro mae cylch cyllideb y DU, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y risg y gall fod newid a fydd yn effeithio ar dreth ddatganoledig, a fydd yn cael effaith gyllidebol uniongyrchol ar adnoddau ac na all Gweinidogion Cymru ymateb iddo mewn modd amserol. Gall ymyriad o'r fath fod yn briodol hefyd os bydd angen i Drysorlys Cymru gau cynlluniau osgoi ar unwaith neu barhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.

### Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**126.** Cafodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: *'Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru'* ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020<sup>33</sup>, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020<sup>34</sup>. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi

33 Gellir gweld *Datganoli Trethi: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (Gorffennaf 2020)* yn: [www.llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru](http://www.llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru)

34 Gellir gweld *Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru – crynodeb o'r ymatebion (Rhagfyr 2020)* yn: [www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf)



cynigion Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Gofynnwyd am farn rhanddeiliaid allweddol ar y cynigion penodol yn y Bil fel y'i drafftwyd yn ystod hydref 2021, ac mae'r adborth wedi'i gynnwys yn nrafft terfynol y Bil.

### **Canlyniad a'r camau nesaf**

**127.** Cyflwynwyd y Bil gerbron y Senedd ar 13 Rhagfyr 2021 ac mae cam 1 o'r broses graffu ddeddfwriaethol wedi dechrau erbyn hyn.

**128.** Ar hyn o bryd, disgwylir i gam 2 fynd rhagddo yn ystod gwanwyn 2022, gyda chamau 3 a 4 yn ystod haf 2022, er mwyn caniatáu ar gyfer cydsyniad brenhinol (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) erbyn hydref 2022.

**129.** Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol o ganlyniad i'r Bil ei hun ac nid oes angen gweithredu mewn perthynas ag ef. Diben y Bil yw sicrhau ei bod yn bosibl gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru drwy reoliadau mewn ymateb i amgylchiadau allanol penodol. Felly, nid yw'n bosibl rhagweld gyda sicrwydd pryd y gallai'r pwerau gael eu defnyddio, ond bydd Llywodraeth Cymru yn monitro pa mor aml y cânt eu defnyddio a sut.

# C. Parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid a dinasyddion er mwyn i'n dull Cymreig o ymdrin â threthi ymwreiddio, a chodi ymwybyddiaeth o drethi Cymru

## 12. Rheoli trethi Cymru ar y cyd â'n partneriaid o fewn cyd-destun ehangach y DU ac yn rhyngwladol

### Diben

**130.** Sefydlu dull Cymreig o reoli trethi Cymru sy'n adlewyrchu'r sbectrw m llawn o gyfrifoldebau a gweithgareddau y mae gweinyddwyr trethi yn eu cyflawni ar lefelau cenedlaethol a lleol, a chydabod rhyngberthnasau o fewn system drethu'r DU.

### Cefndir

**131.** Caiff y cyd-destun strategol a'r bwriad polisi sy'n sail i'r maes gwaith hwn eu crynhoi yn yr Adroddiad diwethaf ar Bolisi Trethi<sup>35</sup> a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

**132.** Yng Nghymru, mae pum treth ar waith y mae rhywfaint o gyfrifoldeb wedi'i ddatganoli mewn perthynas â hwy, a gesglir gan wahanol awdurdodau treth:

- y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn – y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi sy'n cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC);
- treth incwm sydd wedi'i ddatganoli'n rhannol, sef Cyfraddau Incwm Treth Cymru (CTIC) sy'n cael ei chasglu gan CThEM ar ran Llywodraeth Cymru;
- y ddwy dreth leol – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig sy'n cael eu casglu a'u rheoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

**133.** Mae'r trethi unigol hyn a'r awdurdodau gwahanol sy'n eu casglu wedi datblygu'n wahanol oherwydd yr amrywiaeth o strwythurau, prosesau, gofynion ac felly ffyrdd o weithio gwahanol sydd wedi'u hategu a'u llywio. Fodd bynnag, gyda mwy o ddatganoli cyllidol, y broses o sefydlu ACC a'r potensial i gasglu trethi pellach a newydd (er enghraifft, ardoll dwristiaeth), mae cyfle i ddatblygu dull strategol, cydlynol a phenodol o ymdrin â'r trethi a weinyddir yng Nghymru.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**134.** Rhoddodd yr Adroddiad ar Bolisi Trethi 2021 (Mawrth 2021) grynodedb o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn a oedd yn canolbwyntio'n gyffredinol ar brofi'r achos dros ddatblygu dull mwy strategol o reoli trethi yng Nghymru ar y cyd â phartneriaid. Nododd yr Adroddiad y cyd-destun ar gyfer gwaith polisi ar weinyddu trethi. Nododd yn glir hefyd yr heriau rydym yn parhau i'w hwynebu wrth ddatblygu ein blaenoriaethau o ran polisi trethi. Serch hynny, mae'r gwaith hwn yn cynnig cyfleoedd hanfodol i ddatblygu amcanion polisi trethi sylfaenol ac amcanion polisi trethi cysylltiedig eraill, gan gynnwys atgyfnerthu'r berthynas uniongyrchol â threthdalwyr drwy, er enghraifft, roi gwybodaeth gyson iddynt ynghylch ble mae eu trethi yn cael eu gwario.

**135.** Darganfu gwaith ymchwiliol cychwynnol ar bolisiau gweinyddu trethi fod cryn dipyn o weithgarwch yn mynd rhagddo yn rhyngwladol drwy Fforwm ar Weinyddu Trethi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd<sup>36</sup>; ac ar lefel y DU drwy waith i foderneiddio'r broses o weinyddu trethi dan arweiniad CThEM<sup>37</sup>. Roedd yr amrywiaeth o waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac ACC o ran rheoli a chyflwyno trethi Cymru a datblygiadau cysylltiedig mewn polisiau trethi yn dangos tirwedd sy'n datblygu, lle y gall fod cyfle i sefydlu egwyddorion cyffredin ar y cyd er mwyn ategu arferion gweinyddu a chyflwyno trethi.

## Canlyniad a'r camau nesaf

**136.** Mae cefnogi'r gwaith o ddatblygu dull Cymreig o reoli trethi yn flaenoriaeth o hyd. Bydd gwaith yn mynd rhagddo i ystyried a galluogi'r broses o sefydlu cymuned ymarfer o weinyddwyr trethi yng Nghymru, gan gydweithio â phartneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru i fyfyrto ar ddulliau a phrosesau gwahanol gyda'r bwriad o nodi a datblygu arferion gorau.

## 13. Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o drethi yng Nghymru drwy weithgareddau ymgysylltu ehangach

### Diben

**137.** *Codi ymwybyddiaeth o drethi datganoledig, a'r berthynas rhyngddynt hwy ac ystyriaethau a phrosesau cyllidebol Llywodraeth Cymru a digwyddiadau polisi cyllidol Cymreig eraill.*

### Cefndir

**138.** Mae Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU a'r setliad tair blynedd dilynol wedi darparu'r cyd-destun ar gyfer ein gweithgarwch o ran ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth ehangach o dreth a gwariant. Mae'r wybodaeth am ddyraniadau cyllid Covid a phenderfyniadau cysylltiedig o ran treth hefyd wedi rhoi mwy o gyfleoedd i esbonio amcanion polisi fel rhan o'n cyhoeddiadau. Mae cydweithio a thrafod gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn elfen allweddol yn ystod y cyfnod hwn.

## Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

**139.** Rhoddodd cynhadledd dreth flynyddol Trysorlys Cymru, a gynhelir yn rithwir erbyn hyn, gyfle pwysig i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol roi diweddariad i gynrychiolwyr ar ei raglen polisi trethi ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2026. Roedd 13% yn fwy o gynrychiolwyr yn bresennol eleni ac, unwaith eto, roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

**140.** Mae gweithgarwch ymgysylltu parhaus a mewnbwn gwerthfawr gan aelodau o Grŵp Ymgysylltu ar Drethi'r Gweinidog wedi cynnig cyfleoedd i ddatblygu cynnwys a'i rannu drwy rwydweithiau partneriaid ac aelodau. Cymerodd swyddogion polisi ran mewn seminar a gynhaliwyd gan Sefydliad Bevan i egluro proses

36 Forum on Tax Administration – Forum on Tax Administration (oecd.org) [www.oecd.org/tax/forum-on-tax-administration/](http://www.oecd.org/tax/forum-on-tax-administration/)

37 Tax administration strategy – GOV.UK [www.gov.uk/government/publications/tax-administration-strategy](http://www.gov.uk/government/publications/tax-administration-strategy)

y Gyllideb, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am sut y caiff arian ei godi yng Nghymru drwy drethi datganoledig. Mae cyfarfodydd rhwng y Gweinidog a grwpiau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Fforwm y Trydydd Sector, Comisiynwyr yng Nghymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ymhlith eraill, wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi rhoi cyfle i'r Gweinidog drafod â rhanddeiliaid cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyflwyno ar 20 Rhagfyr. Ar ôl prosiect peilot llwyddiannus a gynhaliwyd yn gynharach yn 2021 gyda myfyrwyr economeg chweched dosbarth, aethpwyd ati i ymgysylltu â'r myfyrwyr ar gam cynnar cyn y Gyllideb Ddrafft a gofynnwyd iddynt roi sylwadau a helpu i ddatblygu cynnwys i'w rannu â chynulleidfaoedd ehangach.

**141.** Mae gwaith partneriaeth â CThEM wedi bod yn allweddol wrth baratoi cynnwys i rannu negeseuon Llywodraeth y DU cyn cyflwyno treth pecynnau plastig ym mis Ebrill 2022. Mae cynnwys rhanddeiliaid wedi cael ei greu i'w rannu drwy Busnes Cymru, y Sefydliad Siartredig Trethiant a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. Mae cynnwys hefyd wedi cael ei greu ar gyfer sianeli'r cyfryngau cymdeithasol i wella ymwybyddiaeth o'r dreth a'r ffordd bwysig y bydd yn helpu busnesau yng Nghymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau amgylcheddol cyfunol i Gymru.

**142.** Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o Gyfraddau Treth Incwm Cymru ac mae cyfrifiannell wedi'i datblygu i ddangos i ddinasyddion Cymru faint o arian maent yn ei dalu drwy Gyfraddau Treth Incwm Cymru a ble mae'r arian hwnnw'n cael ei wario. Mae'r gwaith hwn yn rhan o ymgyrchoedd ehangach ynghylch trethi a gwariant, ac mae wedi'i gynnwys yn yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r Gyllideb.

**143.** Yn dilyn Etholiadau'r Senedd, postiwyd trydariadau @TrysorlysCymru ar ran y Gweinidog Cyllid ar sianel y Gweinidog gyda 1,115 o ddilynwyr @TrysorlysCymru a 6,897 o ddilynwyr @WelshTreasury. Yn ogystal â'r cynnydd sylweddol hwn yn nifer y dilynwyr, mae arddull newydd yn cael ei defnyddio, gan gynnwys mwy o ddefnydd o luniau ac emojis ac iaith symlach, fwy sgwrsiol.

### Canlyniad a'r camau nesaf

**144.** Ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 20 Rhagfyr, disgwylir i waith fynd rhagddo ar greu mwy o gynnwys sy'n canolbwyntio ar lythrennedd Cyllidebol wrth inni weld mwy o alw am wybodaeth am y ffordd y caiff arian ei godi a'i wario yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys partneriaethau posibl â rhanddeiliaid addysg.

# Atodiad 1: Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

ACC	Awdurdod Cyllid Cymru
CTIC	Cyfraddau Treth Incwm Cymru
CThem	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
LTTA	Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad
UKAL	Ardoll Agregau'r DU

# Atodiad 2: Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am drethi Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

[www.llyw.cymru/trethi-cymru](http://www.llyw.cymru/trethi-cymru)

Gallwch gysylltu â ni:

drwy gyfrifon Twitter Trysorlys Cymru: @TrysorlysCymru

neu drwy anfon e-bost: [TrysorlysCymru@llyw.cymru](mailto:TrysorlysCymru@llyw.cymru)